# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 5**

CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU

**PENNOD 5**

DARPARIAETH BELLACH MEWN PERTHYNAS Â CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG A RHEOLIADAU CYD-BWYLLGOR

*Diwygio a dirymu rheoliadau cyd-bwyllgor*

**80 Diwygio a dirymu rheoliadau cyd-bwyllgor**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgor.

(2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan is-adran (1) onid yw—

(a) yn achos rheoliadau sy'n diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 72 (rheoliadau cyd-bwyllgor y gwnaed cais amdanynt), yr amodau a nodir yn adran 81 wedi eu bodloni;

(b) yn achos rheoliadau sy'n diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 74 er mwyn pennu, addasu neu hepgor swyddogaeth, ac eithrio er mwyn—

(i) pennu, addasu neu hepgor swyddogaeth sy'n ymwneud â gwella addysg neu drafnidiaeth;

(ii) pennu neu hepgor y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol;

(iii) pennu neu hepgor y swyddogaeth llesiant economaidd,

yr amodau a nodir yn adran 81 wedi eu bodloni;

(c) mewn unrhyw achos arall (gan gynnwys yn achos rheoliadau sy'n diwygio rheoliadau o dan adran 74 er mwyn gosod, addasu neu hepgor gwaharddiad, cyfyngiad neu derfyn arall ar arfer y swyddogaeth llesiant economaidd), yr amodau a nodir yn adran 82 wedi eu bodloni.

(3) Ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio rheoliadau cyd-bwyllgor er mwyn pennu swyddogaeth—

(a) onid yw honno yn swyddogaeth i'r prif gynghorau yn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig;

(b) onid honno yw'r swyddogaeth llesiant economaidd;

(c) yn achos rheoliadau sy'n diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 74, onid honno yw'r swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol.

(4) Rhaid i reoliadau o dan is-adran (1) sy'n diwygio rheoliadau cyd-bwyllgor er mwyn pennu swyddogaeth prif gyngor wneud darpariaeth fel bod y swyddogaeth naill ai—

(a) yn arferadwy gan y cyd-bwyllgor corfforedig yn hytrach na chan y prif gynghorau yn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig, neu

(b) yn arferadwy yn gydredol gan y cyd-bwyllgor corfforedig a'r prif gynghorau hynny.

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio rheoliadau cyd-bwyllgor er mwyn pennu swyddogaeth prif gyngor drwy gyfeirio at weithgaredd neu weithgareddau penodol.

(6) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) sydd—

(a) yn diwygio rheoliadau cyd-bwyllgor er mwyn hepgor swyddogaeth a bennir yn y rheoliadau cyd-bwyllgor hynny, neu

(b) yn dirymu rheoliadau cyd-bwyllgor (er mwyn diddymu'r cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlwyd gan y rheoliadau hynny),

ddarparu y bydd swyddogaeth a fydd yn peidio â bod yn arferadwy gan y cyd-bwyllgor corfforedig, ac eithrio'r swyddogaeth llesiant economaidd neu'r swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol, yn arferadwy gan berson arall.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddirymu rheoliadau a wnaed o dan yr adran hon.